



PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 27 Mawrth 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Tegg	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd H Boggis	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Calvert	Y Cyngorydd C Willis
Y Cyngorydd T Williams	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd D Williams	Y Cyngorydd G Davies
Y Cyngorydd S Pickering	Y Cyngorydd L De Vet
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd S Evans
Y Cyngorydd S.Evans	Y Cyngorydd M Forey
Y Cyngorydd A Fox	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd E Webster	Y Cyngorydd M Webber
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd M Weaver	Y Cyngorydd G Holmes
Y Cyngorydd G Hopkins	Y Cyngorydd P Howe
Y Cyngorydd R Yeo	Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd P Jarman	Y Cyngorydd R Turner
Y Cyngorydd G Thomas	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd S Belzak	Y Cyngorydd D Macey
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd G Hughes
Councillor K Jones	Y Cyngorydd W Jones
Y Cyngorydd L Jones	Y Cyngorydd L Hooper
Y Cyngorydd J Harries	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd M Fidler-Jones	Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd J Williams	Y Cyngorydd J Davies
Y Cyngorydd J Cullwick	Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd A Chapman	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

124 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Caple, A. Davies-Jones, K. Morgan, W. Owen, S. Rees, S. Rees-Owen, R. Smith, G. Stacey, E. Stephens, L. Walker a G.D.G Williams.

125 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud yn y cyfarfod ynglŷn â'r agenda:

Mewn perthynas ag Eitem 8 - Datganiad Polisi Tâl y Cyngor:

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan at y gollyngiad a gafodd e gan y Pwyllgor Safonau ar 8 Rhagfyr 2017. "I siarad a phleidleisio ar bob mater sy'n ymwneud â'r adran Gwasanaethau i Blant, ac eithrio ar gyfer unrhyw faterion penodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr aelod o fy nheulu"
- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell at y gollyngiad a gafodd e gan y Pwyllgor Safonau ar 22 Mawrth 2019. "I siarad a phleidleisio ar bob mater sy'n ymwneud â'r adran Gwasanaethau i Blant, ac eithrio ar gyfer unrhyw faterion penodol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr aelod o fy nheulu"
- Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Hopkins: "Mae fy mhartner yn gweithio i'r sefydliad ond nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod ac yn cymryd rhan yn yr eitem."
- Mr C Bradshaw - Prif Weithredwr: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."
- Mr C Jones - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."
- Mr C Hanagan - Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."
- Mr R Evans - Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."

- Mr G Isingrini - Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."
- Mr N Wheeler - Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."
- Mr B Davies - Cyfarwyddwr Cyllid: "Nid yw'r datganiad Polisi Tâl ar gyfer y Cyngor yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau cyfredol sy'n berthnasol i weithwyr unigol, felly byddaf yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno ac yn ystod trafodaeth ddilynol ar yr eitem."

Mewn perthynas ag Eitemau 6 ar yr agenda (Strategaeth Rheoli'r Trysorlys), 7 (Strategaeth Cyfalaf 2019/20) ac 8 (Datganiad Polisi Tâl y Cyngor):

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman at y gollyngiad a gafodd hi gan y Pwyllgor Safonau ar 23 Tachwedd 2018. "Caf i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2019-2020 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid."

126

CYHOEDDIADAU

- Arweiniodd yr Arweinydd, ynghyd â'r Dirprwy Arweinydd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman, y teyrngedau i Mr C Jones a fyddai'n ymddeol o'r Awdurdod yn fuan. Mynegodd yr Aelodau eu diolch am wasanaeth hirdymor Mr Jones a'i eiriau o gyngor dros flynyddoedd lawer, cyn dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Yna cafodd Mr Jones gyfle i annerch yr Aelodau.
- Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i fynegi ei ddiolch i Mrs J Cook, sydd wedi gadael yr Awdurdod yn ddiweddar. Siaradodd yr Arweinydd am wybodaeth helaeth Mrs Cook a'i chyfraniad allweddol at y Fargen Ddinesig ac amryw o brosiectau eraill. Ar ran yr holl Aelodau, dymunodd yr Arweinydd ymddeoliad hapus iddi.
- Dywedodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman wrth yr Aelodau fod Miss Lowri Rees-Owen, merch Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen, wedi'i dewis i astudio yn Academi Ffilm fawreddog Efrog Newydd. Manteisiodd y Cynghorydd Jarman ar y cyfle i longyfarch Miss Rees-Owen sy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Gynradd Bronllwyn ac Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.
- Aeth y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman ymlaen i ddweud wrth yr Aelodau y byddai Mr Lloyd Macey, mab Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Macey, yn perfformio yn y Gwobrau Ffilm Cenedlaethol y noson honno yn Neuadd Porchester, Llundain. Manteisiodd y Cynghorydd Jarman ar y cyfle i longyfarch Lloyd, a fyddai'n ymuno â nifer o enwogion yn yr achlysur, sy'n cael ei ddarlledu ar Sky Showcase.
- Dywedodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Rosser wrth yr Aelodau am bum llyfr a grëwyd gan bobl ifanc o Gwm Rhondda. Roedd y llyfrau ar gael i'w prynu am bris o £3 a byddai'r holl elw yn mynd tuag at y prosiect.

- Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins wrth yr Aelodau mai Mr Roberts, Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Llanharan, oedd yr unig athro o Gymru i fod ar restr fer gwobr Athro Ffilm y Flwyddyn. Roedd yn falch o gyhoeddi bod Mr Roberts wedi ennill y wobwr.
- Diolchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones i'r Maer am groesawu ei gôr, Cwmdare Voices, i Barlwr y Maer. Roedd y Cynghorydd Jones yn falch o gyhoeddi y byddai Cwmdare Voices yn teithio i Awstralia a Singapore yn yr wythnosau nesaf, ac yn perfformio ym mhencampwriaeth y Singapore Sevens.
- Manteisiodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries ar y cyfle i longyfarch dau ddisgybl 6ed dosbarth o Gwm Rhondda, sef Sydney Richards o Ysgol Gyfun Treorci a Megan Saff o YG Cwm Rhondda, a gyrhaeddodd y rownd gynderfynol 'Cystadleuaeth Canwr Ifanc' Ardal 5, cylch 1150. Yn anffodus, aethon nhw ddim drwedd i'r rownd derfynol, er bod Sydney wedi dod yn agos at y brig.
- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams at ei hymweliad diweddar â Pharlwr y Maer gydag aelodau o Glwb Te Prynawn Cwmaman er mwyn dathlu pen-blwydd yn 80 oed, a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Maer.

127 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2019, yn rhai cywir.

128 DATGANIADAU

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â darparu cyswllt WiFi am ddim mewn Canol Trefi

Roedd yr Arweinydd yn falch o ddweud wrth yr Aelodau am y gwaith o gyflwyno WiFi am ddim mewn wyth canol tref yn Rhondda Cynon Taf. I ddechrau, bydd y ddarpariaeth ar gael yng nghanol tref Aberdâr, ac yna'n cael ei chyflwyno i ganol y trefi eraill yn ystod y flwyddyn. Dysgodd yr aelodau fod trafodaethau ar y gweill gyda masnachwyr lleol er mwyn sicrhau nad yw'r buddsoddiad yn cynyddu ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac felly, mae'n bosibl mai dim ond rhwng 7am a 7pm y bydd y WiFi ar gael. Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud y byddai'r WiFi am ddim yn fuddsoddiad cadarnhaol, a fyddai'n debygol o annog busnesau i ganol y dref ac o ganlyniad, yn cynyddu nifer yr ymwelwyr. Cafodd yr aelodau sicrwydd y byddai'r Cynghorydd M. Norris yn darparu rhagor o newyddion yn y dyfodol agos.

129 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

1. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. George i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A oes modd i'r Arweinydd roi diweddariad ynglŷn â'r gwasanaethau a gaiff eu darparu gan y Cyngor yn dilyn cyflwyno'r system Credyd Cynhwysol yn Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Siaradodd yr Arweinydd am y gefnogaeth a ddarperir gan y Cyngor ar gyfer y rheiny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, sy'n cynnwys:

- Gwaith y Gwasanaeth Addysg Oedolion gyda phartneriaid Dydd Gwener Digidol i ddatblygu llwybr dilyniant i gwrs sgiliau digidol 4 wythnos mwy ffurfiol, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Ehangwyd hyn ymhellach ar y cyd â Dysgu Oedolion Cymru, er mwyn cynnwys gwybodaeth a chymorth penodol ar Gredyd Cynhwysol;
- Cafodd gwefan Cyngor Rhondda Cynon Taf ei gwella er mwyn rhoi gwybodaeth a chynghor i hawlwyr, eu cyfeirio yn effeithiol at brosesau hawlio ar-lein cenedlaethol a sicrhau mynediad rhwydd at gymorth lleol;
- Mae staff Cymunedau am Waith/Cymunedau am Waith a Mwy wedi gweithio gyda chleientiaid cyfredol ar raglenni mentora er mwyn eu paratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol. Cafodd yn ei wneud trwy sicrhau bod dogfennau adnabod priodol ar gael a darparu rhywfaint o arian o'r Gronfa Rhwystrau ar gyfer unigolion sydd angen cymorth i dalu am y dogfennau sydd eu hangen arnyn nhw i gwblhau'r broses;
- Mae teuluoedd sy'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi cael mynediad uniongyrchol at gymorth cynhwysiant ariannol gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, sef ein darparwr penodedig;
- Mae'r garfan Budd-daliadau Tai wedi mynychu cyfarfodydd lles chwarterol gyda phob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn trafod effaith Credyd Cynhwysol ar eu tenantiaid, yn enwedig mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent;
- Dosbarthwyd gwybodaeth i holl staff perthnasol y Cyngor a sefydliadau partner i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ble a sut i gyfeirio unigolion at y cymorth sydd ei angen arnyn nhw yn unol â'r wybodaeth;
- Cyflwynwyd sesiynau galw heibio ar Gredyd Cynhwysol;
- Cafodd Credyd Cynhwysol ei gynnwys fel eitem safonol ar agenda'r Grŵp Strategaeth Tai, a hwyluswyd gan y Gwasanaeth Adfywio a Chynllunio ac sy'n cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a landlordiaid preifat.

Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud bod swyddogion o'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gweithio gyda'r Cyngor mewn modd rhagweithiol ac yn ymatebol ac er bod y niferoedd presennol yn cael eu hystyried yn fach, gallai gymryd hyd at 2021/2022 cyn i bob hawliwr gael ei symud i'r system Credyd Cynhwysol .

Nid oedd gan y Cyngorydd George gwestiwn atodol.

2. **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol, D. R. Bevan:**

"Mae amrywiaeth o ffactorau yn parhau i gael effaith ar strydoedd siopa ledled y wlad. Beth y mae modd i'r Cyngor yma ei wneud er mwyn eu gwneud nhw'n addas ar gyfer y dyfodol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan:

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i'r Cyngorydd Jones am y cwestiwn a chytunodd fod pob canol tref dan bwysau gan amrywiaeth o ffactorau allanol, gan gynnwys caledi a'r newid ym mhatrymau gwario pobl ac

arferion siopa. Eglurodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor yn ymrwymedig i gyflawni a datblygu ystod o fesurau a fyddai'n arwain at sicrhau bod trefi mewn sefyllfa dda i oresgyn yr heriau. Siaradodd y Cyngorydd Bevan am y canlynol:

- Datblygu strategaethau canol trefi, fel yr un a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer y Porth;
- Darparu Canolfannau Cymunedol newydd mewn lleoliadau yng nghanol y dref i ddarparu gwasanaethau fel y rhai sydd ar y gweill ar gyfer Aberdâr, y Porth, Aberpennar a Glynrhedynog;
- Darparu pecyn integredig o gymorth i fusnesau er mwyn eu helpu i dyfu a moderneiddio. Mae hyn yn cynnwys y Rhaglen Cymorth Menter a'r Grantiau Cynnal Canol Tref newydd; a
- Parhau i leihau taliadau parcio ceir yn y prif drefi a dileu taliadau ym mhob tref arall.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones:

"Fel y gwyddoch, mae'r cynllun Ardal Gwella Busnes (BID) ym Mhontypridd wedi bod yn llwyddiannus ers ei sefydlu, a allech chi ddweud mwy wrthyf am y cynllun Ardal Gwella Busnes ar gyfer Aberdâr?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R. Bevan:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Busnes a Thwristiaeth Aberdâr (ABTA) ac yn cefnogi cymunedau busnes yng nghanol trefi i helpu eu hunain ac i ddatblygu eu mentrau eu hunain trwy ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes (BID). Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol i ddatblygu opsiynau ar gyfer Ardaloedd Gwella Busnes yn Nhreorci ac yn Aberdâr a bod y Cyngor ar hyn o bryd yn ystyried pa fanteision y gall Ardaloedd Gwella Busnes eu cynnig i ganol y dref. Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i siarad am y fenter 'Hop, Shop and Save' a ddatblygwyd yng nghanol tref Pontypridd, sy'n caniatáu i fasnachwyr gynnig gostyngiadau i siopwyr lleol. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod trafodaethau ar y gweill i gyflwyno'r fenter hon ymhellach yng nghanol tref Aberdâr.

3. **Dywedodd y Maer wrth yr Aelodau nad oedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple yn bresennol i ofyn ei gwestiwn i'r Aelod o'r Cabinet oherwydd profedigaeth. Ar ran y Cyngor, nododd y Maer ei gydymdeimlad â'r Cyngorydd Caple.**
4. **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Rosser:**

"A wnewch chi ddatganiad ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i'r Cyngorydd am y cwestiwn ac eglurodd fod yr holl Ddosbarthiadau Cymorth Dysgu yn Rhondda Cynon Taf cael

eu cynnal gan ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd. Dywedodd yr Aelod fod modd i'r Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant ddarparu gwasanaethau allgymorth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, megis Seicoleg Addysg, Gwasanaeth Synhwyrdd, Lleferydd ac Iaith, sy'n cynnwys Awtistiaeth, Cymorth Ymddygiad ac Anawsterau Dysgu penodol/cymhleth. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet fod Rhondda Cynon Taf yn cynnal archwiliadau rheolaidd o anghenion addysgol arbennig disgyblion yn ei ysgolion cyfrwng Cymraeg i weld a oes angen sefydlu darpariaeth cymorth dysgu cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies:

"Dylai addysg Cyfrwng Cymraeg fod ar gael i bob disgybl ond mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn colli allan oherwydd nifer o resymau megis y diffyg unedau arbennig sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg, Cynlluniau Croesawu Saesneg a Thasgau Seicoleg Addysgol a gaiff eu cynnal yn Saesneg. Sawl plentyn sy'n colli allan o ran Addysg Cyfrwng Cymraeg a beth y mae modd ei wneud i wella hyn?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Ailadroddodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor yn cynnal archwiliadau rheolaidd o anghenion addysgol arbennig y disgyblion o fewn ei ysgolion cyfrwng Cymraeg a dywedodd fod nifer isel o ddisgyblion a fyddai'n bodloni'r meini prawf i gael mynediad i'r un math o ddarpariaeth Gymraeg arbenigol.

5. **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. R. Bevan:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ynglŷn â Strategaeth Eiddo Gwag y Cyngor?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R. Bevan:

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i'r Cyngorydd am y cwestiwn ac aeth ymlaen i esbonio bod Strategaeth Eiddo Gwag y Cyngor wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet ar 21 Tachwedd 2018. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet mai nod allweddol y Strategaeth yw darparu dull rhagweithiol o fynd i'r afael ag Eiddo Gwag drwy:

- Cynyddu nifer y cartrefi gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto;
- Gwneud y mwyaf o'r cyllid cyfredol a nodi cyllid pellach i gynyddu nifer y cartrefi gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto;
- Ymgymryd â gwaith ymchwil mewn cymunedau a gwerthuso cynlluniau sy'n bodoli eisoes er mwyn deall pam mae nifer uchel o gartrefi gwag.

Daeth yr Aelod o'r Cabinet i ben drwy ddweud bod y Cyngor wedi cyhoeddi 130 o Grantiau Eiddo Gwag ers 2016, ac mae cyfanswm o 81 o Fenthyciadau Troi Tai'n Gartrefi wedi'u cymeradwyo a'u talu, sy'n cyfateb i gyfanswm o £ 2.5 miliwn.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox:

“Fel y gwyddoch, mae gan fy ward rai o'r lefelau uchaf o gartrefi gwag yn y Fwrdeistref Sirol, sut fydd y strategaeth yn ymateb i eiddo gwag hirdymor parhaus?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R. Bevan:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar dargedu'r 684 eiddo gwag 'tymor hir' a nodwyd ar draws Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys y rhai ym Mhenrhiw-ceibr; ac eglurodd fod pob cymuned yn cael ei gwerthuso ar sail unigol gan fod angen dulliau gwahaniaethol yn dibynnu ar yr eiddo a'i leoliad. Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i siarad am waith diweddar y Pwyllgor Craffu - lechyd a Lles, sydd wedi cynnal adolygiad mewn perthynas â'r eiddo gwag. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r Pwyllgor Craffu yn cynnal adolygiad dilynol ym mis Hydref 2019 i adeiladu ar ei waith cadarnhaol. Daeth yr Aelod o'r Cabinet i ben drwy ddweud bod y Cyngor yn barod i ystyried ystod eang o opsiynau, o ymyrraeth gynnar i ymyrryd yn gyfreithiol, pan fo eiddo'n niweidiol iawn i'r cymunedau lleol.

130 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Phennaeth Gwasanaethau Democraidd Dros Dro wrth yr Aelodau y byddai'r Cynllun Datblygu yn cael ei ystyried ym mlwyddyn nesaf y Cyngor.

131 STRATEGAETH REOLI'R TRYSORLYS GAN GYNNWYS Y STRATEGAETH FUDDSODDI, DANGOSYDDION RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DATGANIAD DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW AR GYFER 2019/2020

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol drwy Reoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid a Digidol wedi rhoi Gwybodaeth i'r Aelodau ar y canlynol: -

- Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20;
- Y Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2019/20;
- Dangosyddion y Trysorlys ar gyfer 2018/19 (gwirioneddol hyd yma) a 2019/20, 2020/21 a 2021/22;
- Y Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

(Nodwch: Ar yr adeg hon, daeth Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Pickering a D. Macey i mewn i'r cyfarfod.)

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion y Trysorlys, a'r Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y nodir yn yr adroddiad.

132 ADRODDIAD STRATEGAETH CYFALAF 2019/20 GAN GYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS

Yn unol â rhifyn 2017 o'r Cod Darbodus, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol wybodaeth i'r Aelodau am Strategaeth Gyfalaf y Cyngor.

Hysbyswyd yr Aelodau mai pwrpas adroddiad y Strategaeth Gyfalaf yw rhoi trosolwg o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gwaith rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd â throsolwg o'r risg gysylltiedig, sut y caiff hynny ei reoli a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r adroddiad Strategaeth Cyfalaf sy'n ymgorffori'r Dangosyddion Darbodus.

133 **DATGANIAD Y CYNGOR AR Y POLISI CYFLOGAU**

Yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wybodaeth i'r Aelodau am Ddatganiad Polisi Cyflogau 2019/20 y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Datganiad Polisi Cyflog fel y dangosir yn Atodiad A yr adroddiad.

134 **BREXIT**

Rhoddodd y Prif Weithredwr grynodedd llafar o'r manylion i'r Aelodau am y sefyllfa gyfredol o ran Brexit a'i effaith posibl ar y Cyngor a'i drigolion. Soniodd y Prif Weithredwr am ymrwymiad Senedd y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, ond nid oedd digon o gefnogaeth i Fargen y Llywodraeth â'r UE. Fodd bynnag, roedd ASau yn cymryd cyfres o "bleidleisiau dangosol" heno ar ddewisiadau amgen i Fargen y Llywodraeth, serch hynny roedd yn annhebygol y byddai consensws trawsbleidiol yn cefnogi ffordd ymlaen.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr nad oedd modd dyfalu beth yn union fyddai effaith Brexit ond rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau fod y Cyngor yn rhoi paratodau ar waith, lle bo hynny'n bosibl. Aeth y swyddog ymlaen i ddweud bod gwefan y Cyngor wedi'i diweddarau i gynnwys canllawiau i alluogi busnesau a thrigolion i ddeall yr hyn y byddai angen iddynt ei wneud mewn senario 'Dim Bargaen', fel bod modd gwneud cynlluniau a pharatodau gwybodus. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am Gynllun Preswyllo'n Sefydlog yr UE ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU. Roedd y Cyngor hefyd wedi ysgrifennu at yr holl weithwyr a allai gael eu heffeithio gan hyn ac wedi cynnig cymorth a chefnogaeth i gofrestru yn unol â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog.

Rhag ofn y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd mewn senario 'Dim Bargaen', mae deunyddiau penodol ar brosiectau cyfalaf mawr wedi'u mewnforio yn gynnar a'u storio. I ddeall y risg na fydd cyflenwadau a gwasanaethau hanfodol yn cael eu darparu mewn senario "Dim Bargaen", mae Gwasanaeth Caffael y Cyngor wedi cynnal arolwg o'i 90 cyflenwr mwyaf ac wedi cael cadarnhad (ddwywaith dros y 6 mis diwethaf) bod y cyflenwyr yn hyderus bod modd iddyn nhw fodloni ein gofynion. Dysgodd yr Aelodau fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a bod cynllun wrth gefn wedi'i lunio rhag ofn bydd angen i drefnu Etholiadau Ewropeaidd neu Etholiad Cyffredinol. Cafodd yr Aelodau sicrwydd y byddai diweddariadau yn y dyfodol yn cael eu darparu pan fo'n briodol.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

1. Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. James a L. Hooper gan y Swyddog Priodol yn unol â Rheol 10.1 (b) Gweithdrefn y Cyngor: -

Mae'r Cyngor yma yn nodi ei siom bod y Bil Awtistiaeth wedi'i drechu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y bil yma ei ddatblygu ar y cyd â Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, ac roedd wedi derbyn cefnogaeth drawsbleidiol.

Er bod y Cyngor yma yn cydnabod, wrth gwrs, nad deddfwriaeth yn unig yw'r ateb i wella mynediad at wasanaethau ar gyfer y rheiny ag awtistiaeth yn ein cymunedau, trwy wneud dim ond gwrthod y Bil, heb gyflwyno dewis arall credadwy, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r neges anghywir ynglŷn â'r pwnc pwysig yma.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn crynhoi pryder y Cyngor yma ynglŷn â threchu'r Bil yma, gan ofyn hefyd am sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei deddfwriaeth ei hun ar y mater yma.
- Gofyn i Bwyllgor Craffu – Iechyd a Lles y Cyngor yma baratoi darn o waith ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, i drafod pa bethau pellach y mae modd i'r Cyngor yma eu gwneud i gynorthwyo'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan awtistiaeth yn Rhondda Cynon Taf.

Cyhoeddodd y Maer fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol 10.4.1 Gweithdrefn y Cyngor yn enwau'r Cynghorwyr M Adams, J. Bonetto, R. Bevan, H. Boggis, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De-Vet, J. Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, , S. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. Willis a R. Yeo.

Mae'r Cyngor yma yn nodi bod y Bil Awtistiaeth wedi'i drechu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y Bil yma ei ddatblygu ar y cyd â Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, ac roedd wedi derbyn cefnogaeth drawsbleidiol. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi pryderon y pum Coleg Meddygaeth a Chyddfederasiynau GIG Cymru nad y Bil oedd y llwybr gorau ar gyfer gwella canlyniadau i unigolion sydd ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig.

Er bod y Cyngor yma yn cydnabod, wrth gwrs, nad deddfwriaeth yn unig yw'r ateb i wella mynediad at wasanaethau ar gyfer y rheiny ag awtistiaeth yn ein cymunedau, dylai cymryd camau at wella'r canlyniadau i unigolion sydd ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig fod yn flaenoriaeth i Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod datrysiadau eraill ar waith.

- Gofyn i Bwyllgor Craffu – Iechyd a Lles y Cyngor yma baratoi darn o waith ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol, i drafod pa bethau pellach y mae modd i'r Cyngor yma eu gwneud i gynorthwyo'r rheiny sy'n cael eu heffeithio gan awtistiaeth yn Rhondda Cynon Taf.

Yn dilyn trafodaeth hir, cafodd pleidlais ei chynnal ar gyfer y Rhybudd o Gynnig diwygiedig. Cafodd y bleidlais ei chario a PHENDERFYNNODD yr Aelodau fabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig diwygiedig yn enwau'r Cynghorwyr M Adams a J. Bonetto.

- 2** Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, E. Webster, S.M. Evans, A. Chapman, L.Jones, E.Stephens, H.Fychan, D.Grehan, K.Morgan, S.Rees Owen, M.Weaver, D.Macey, J.Davies, J.Cullwick, J.Williams ac A.Cox yn unol â Rheol 10.1 (b) Gweithdrefn y Cyngor: -

Mae rhyw 7,720 o drigolion yn Rhondda Cynon Taf wedi colli'u golwg a miloedd rhagor yn profi anawsterau symudedd fel defnyddwyr cadair olwyn. Mae'r bobl hyn, yn ogystal â phobl ifainc â chadeiriau gwthio, yn ei chael hi'n anodd teithio ar y strydoedd oherwydd rhwystrau ar balmentydd.

O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yma yn gweithio gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru (RNIB Cymru) a sefydliadau eraill i bobl anabl i ddatblygu Pecyn Cymorth Siarter y Strydoedd i waredu'r risgiau a'r anfantais sy'n gysylltiedig â rhwystrau ar y strydoedd.

Bydd y cynnig yma, ar ôl iddo gael ei dderbyn gan y Cyngor, yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu perthnasol i ddatblygu Siarter y Strydoedd Ddrafft. Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor hwnnw'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru a Grwpiau Fforwm Mynediad ac Anabledd eraill trwy gymryd tystiolaeth gan bobl sydd wedi colli eu golwg neu sydd ag anableddau eraill, sy'n profi anfantais. Wedyn caiff Siarter y Strydoedd Ddrafft ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.42 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**